**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

David Rees AM
Y Pwyllgor Materion Allanol
a Deddfwriaeth Ychwanegol

2 Gorffennaf 2018

Annwyl David

Yn ystod fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ar 27 Mehefin 2018, cyfeiriais at yr adroddiad cryno ar y trafodaethau diweddar (rhwng mis Rhagfyr 27 a mis Mawrth 2018) a oedd yn rhoi cyfle i bartneriaid a rhanddeiliaid roi adborth ynghylch y cynigion ym mhapur polisi Llywodraeth Cymru 'Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit.'

Roedd y papur polisi hwn yn dilyn ymchwiliad i ddyfodol polisi rhanbarthol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ym mis Mehefin 2017, a oedd yn argymell egwyddorion i Lywodraeth Cymru eu hystyried: eglurder pwrpas, mesur a gwerthuso, symleiddio a hyblygrwydd, ac arfer gorau yn rhyngwladol. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hadlewyrchu yn y papur polisi, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017.

Mae canfyddiadau'r trafodaethau bellach wedi'u cyhoeddi mewn adroddiad cryno annibynnol, sydd ar gael drwy'r ddolen ganlynol: https://gov.wales/funding/regional-investment-in-wales-after-brexit/?skip=1&lang=cy

Fel y dywedais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, mae'r adroddiad yn canfod cefnogaeth eang i'r cyfeiriad polisi sy'n cael ei gynnig, gan gynnwys yr angen i Lywodraeth Cymru osod cyfeiriad strategol, gwrthod dull gweithredu wedi'i ganoli yn y DU, a chael gwared â ffiniau artiffisial. Codwyd materion penodol, megis rhai yn ymwneud â symleiddio, canlyniadau a threfniadau partneriaeth, gan unigolion a sefydliadau ledled Cymru. Ceir manylion amdanynt yn yr adroddiad cryno, ac fe fyddant yn rhan hanfodol o'r cam nesaf wrth barhau i ddatblygu polisi buddsoddi rhanbarthol i Gymru y tu allan i'r UE.

Byddwn yn ystyried y canfyddiadau ac yn gosod y camau nesaf i'w cymryd ar ôl yr haf.

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales